# PARRY, JOSEPH (1841 - 1903), cerddor

**Enw:** Joseph Parry
**Dyddiad geni:** 1841
**Dyddiad marw:** 1903
**Priod:** Jane Parry (née Thomas)
**Plentyn:** Joseph Haydn Parry
**Plentyn:** Mendelssohn Parry
**Plentyn:** William Sterndale Parry
**Plentyn:** Annie Edna Parry
**Plentyn:** Dilys Parry
**Rhiant:** Daniel Parry
**Rhiant:** Elizabeth Parry (née Richards)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth
**Awdur:** Gwilym Prichard Ambrose

Ganwyd 21 Mai 1841 ym Merthyr Tydfil. Deg oed ydoedd pan aeth i weithio mewn pwll glo, a 12 oed yn dechrau gweithio mewn gwaith haearn. Fe'i magwyd mewn awyrgylch gerddorol; canai alto mewn oratorïau a berfformid gan gôr Rosser Beynon. Yn 1854 symudodd gyda'i rieni i Dannville, Pennsylvania, U.D.A., lle y bu'n gweithio mewn melinau-rholio-haearn hyd 1865, ac astudio harmoni yn ei oriau hamdden. Enynnodd ei fedr yn ennill ar gyfansoddi mewn eisteddfodau cenedlaethol yn 1863 a 1864 frwdfrydedd y cyhoedd, a chodwyd cronfa a'i galluogodd i fyned i'r Royal Academy of Music (1868-71). Wedi iddo ddychwelyd i Danville sefydlodd ysgol gerdd yno. Dewiswyd ef yn athro cerdd (a phennaeth adran newydd cerdd) yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth; daliodd y swydd hon o 1874 hyd 1880. Yn 1878 graddiodd yn Mus. Doc. (Cantab.) Erbyn hyn yr oedd yn cael galwadau mynych i weithredu fel beirniad cerddorol; yr oedd hefyd yn brysur gyda'i efrydwyr ac yn cynnal cyngherddau y cynhwysid ynddynt lawer o'i gynhyrchion ef ei hun. O 1881 hyd 1888 bu'n gweithio yn Abertawe - yn organydd capel Ebenezer ac yn bennaeth coleg cerdd a sefydlasai yno. Yna, o 1888 hyd y bu farw, bu'n ddarlithydd mewn cerddoriaeth yng Ngholeg Prifathrofaol Caerdydd.

Yr oedd Joseph Parry yn gyfansoddwr toreithiog - yn cynhyrchu (a hynny gyda rhwyddaneb) caneuon, cytganau, anthemau, tonau, a rhai gweithiau offerynnol. Cyfansoddodd amryw operâu; cawsai ei opera 'Blodwen' (1880) ei pherfformio tua phum cant o weithiau erbyn 1896. Ymysg ei weithiau mwyaf y mae oratorïau ('Emmanuel,' 1880; 'Saul,' 1892) a chantata ('Nebuchadnezzar,' 1884). Darlithiai lawer ac ysgrifennai'n fynych i gylchgronau. Yr oedd ei yrfa ramantus, ei ddiwydrwydd diflino, ei dalent rwydd, a'i addysg broffesiynol, yn ei wneuthur yn ffigur blaenllaw ym myd cerddorol Cymru yn ei gyfnod. Daeth ei dôn 'Aberystwyth' yn glasur. Bu farw 17 Chwefror 1903 ym Mhenarth, gerllaw Caerdydd.

## Awdur

**Prifathro Gwilym Prichard Ambrose**

## Ffynonellau

E. Keri Evans, *Cofiant Dr. Joseph Parry* (Caerdydd 1921)

*Y Cerddor*, 1913

## Darllen Pellach

Archifau LlGC: NLW MS 9661D: Dr. Joseph Parry autobiography

Joseph Parry (1841–1903), gwefan T  Cerdd, gwelwyd 7 Mawrth 2018

Erthygl Wicipedia: Joseph Parry

## Delweddau

Henry Alfred Chapman, Joseph Parry

John Harrison Goldie, Dr. Joseph Parry

John Thomas, Joseph Parry

Humphreys's Photographic Studio, Joseph Parry

Humphreys's Photographic Studio, Joseph Parry

LlGC: Joseph Parry

T. Sinclair & Son, Joseph Parry, Bachelor of Music, Cambridge, England

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Dr Joseph Parry Manuscripts

Archifau LlGC: NLW MSS 19772-19826: The works of Dr Joseph Parry (1841-1903)

VIAF: 14970298

Wikidata: Q3395608

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu